Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref EH/04076/15

Gareth Clubb

gclubb@gmail.com

06 Hydref 2015

Annwyl Mr Clubb,

Rwyf wedi cael copi o'ch cwyn dyddiedig 17 Medi ynghylch yr wybodaeth a ddefnyddiwyd yn yr arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Gofynnwyd i mi ymateb i'ch gohebiaeth gan mai i'm portffolio i y mae'r mater hwn yn perthyn.

Yn y crynodeb o lyfryn yr arddangosfa, roedd y gyfres o ffeithluniau yn rhoi crynodebau lefel uchel yn ogystal ag ystadegau am y cynigion. Darparwyd yr un wybodaeth ar y panelau mawr yn yr arddangosfeydd. Mae'r rhain yn ymdrin â phroblemau sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'r llwybr, yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd.

Gallwch ddarllen rhagor am y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y ffeithluniau yn Adran 10 o Lyfryn Gwybodaeth y Prosiect sydd ar gael yn www.llyw.cymru/m4casnewydd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gefndir ar yr un wefan ac ar www.m4newport.com drwy ddarllen dogfennau fel yr Achos Busnes, adroddiadau WELTAG, adroddiad ar werthuso'r Economi a'r adroddiad ynghylch rhagolygon traffig.

Hefyd, bydd fy swyddogion yn ymateb ar wahân i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch y mater hwn.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper